# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD GWENER, 13EG IONAWR, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni.

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**sionedmaijones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 05/01/2023)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

## Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan- Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Llinos Medi Huws - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Charlie McCoubury - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng. Mark Pritchard - Cyngor Wrecsam
Cyng. Ian Roberts - Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Dyfrig L Siencyn - Cyngor Gwynedd

## Aelod Eryri

Cyng. Annwen Hughes – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

## Prif Swyddogion

Alwen Williams - Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Dafydd Gibbard - Cyngor Gwynedd
Dylan Williams - Cyngor Sir Ynys Môn
Rhun ap Gareth - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton - Cyngor Sir y Fflint
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Ian Bancroft - Cyngor Wrecsam
Emyr Williams – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

## Swyddogion Statudol

Dewi Aeron Morgan – Prif Swyddog Cyllid
Iwan G Evans – Swyddog Monitro

# R H A G L E N


## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL — 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 Hydref, 2022 fel rhai cywir.

## 5. PENSIYNAU: AWDURDOD GWEINYDDU'R CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL (CPLLL) AR GYFER CBC Y GOGLEDD — 9 - 11

Alwen Williams, Prif Weithredwr y CBC i gyflwyno’r adroddiad.

## 6. CYLLIDEB 2023/24 CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD AC ARDOLL AR AWDURDODAU CYFANSODDOL — 12 - 20

Dewi A Morgan, Prif Swyddog Cyllid y CBC, Dafydd L Edwards, Swyddog Arweiniol y Prosiect CBC a Sian Pugh, Cyfrifydd Grŵp y CBC i gyflwyno’r adroddiad.

## 7. DATGANIAD CYFRIFON CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD AR GYFER 2021/22 — 21 - 25

Dewi A Morgan, Prif Swyddog Cyllid y CBC a Sian Pugh, Cyfrifydd Grŵp y CBC i gyflwyno’r datganiad Cyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

## 8. DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG AR GYFER 2023/24 — 26

I gytuno ar ddyddiadau arfaethedig ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer y flwyddyn 2023/24.

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**
**07/10/2022**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Jason McLellan (Cyngor Dir Ddinbych), Carwyn Elias Jones (Cyngor Sir Ynys Mon), Charlie McCoubury (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Prichard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd)

Aelod Eryri: Y Cynghorydd Annwen Hughes (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)

Prif Swyddogion – Emyr Williams (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Mon), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), , Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) a Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol –Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Swyddog Adran 151), Dafydd L. Edwards (Swyddog Arweiniol Prosiect y Cyd-Bwyllgor), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp y CBC), ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Llinos Medi (Cyngor Sir Ynys Môn) a Emyr Williams (Prif Weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar yr 22 Gorffennaf 2022 fel rhai cywir.

**5. RHAGOLWG O WARIANT 2022/23 CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp y CBC).

**PENDERFYNIAD**

Nodwyd a derbyniwyd rhagolwg o wariant y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2022/23, fel cyflwynwyd yn Atodiad 1. Cytunwyd fod tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cael ei neilltuo i gronfa wrth gefn ar gyfer ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn adolygiad ariannol o fis Medi 2022. Amlygwyd y prif bwyntiau gan ddangos y gyllideb ac yr amcan o'r sefyllfa tan ddiwedd y flwyddyn. Eglurwyd eu bod yn amcanu tanwariant o £50k ar y pennawd Gweithwyr. Nodwyd fod y gyllideb wedi ei selio ar gyflogi / secondio dau weithwyr yn y maes Trafnidiaeth o Gorffennaf 2022 a 3 gweithiwr yn y maes Cynllunio Strategol o Rhagfyr 2022,nid oes penodiadau wedi eu gwneud hyd yma. Mae Gwasanaeth Cyllid Cyngor Gwynedd hefyd wedi rhoi amcan ar gyfer costau y Cyfarwyddwr Portffolio o Hydref ymlaen, ac fe fydd y Gwasanaeth Cyllid yn gweithio gyda'r Bwrdd Uchelgais dros y misoedd nesaf gyda hyn.

Amlygwyd tanwariant tebygol o £2.5k ar y pennawd Teithio a tanwariant o £45k ar y pennawd cyflenwadau a gwasanaethau. Eglurwyd fod £1k o danwariant ar y pennawd cyflenwadau amrywiol, £4k ar y pennawd ymgysylltu a chyfarfodydd a £40k ar y pennawd ymgynghorwyr allanol.

Mynegwyd fod tanwariant net o £3.5k yn cael ei ragweld ar y pennawd Gwasanaethau Cefnogol. Nodwyd fod gorwariant o £10k ar y costau cyllid gan fod rôl y Swyddog Arweiniol y Prosiect wedi parhau yn hirach na'r hyn â ragwelwyd yn wreiddiol. Amlygwyd £11k o danwariant ar y pennawd Cefnogaeth Gorfforaethol oherwydd lleihad yn y niferoedd o gyfarfodydd ffurfiol.

Esboniwyd fod oediad pellach gyda deddfu i roi statws adran 33 i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a hyn bellach ddim yn debygol o fewn mewn lle tan y 1af Mawrth 2023. Mynegwyd o ganlyniad i hyn ni fodd modd ad-hawlio TAW ar unrhyw drafodion ariannol sy'n perthyn i'r cyfnod cyn hyn ac yn seiliedig ar yr amcan gorwariant yn ystod y cyfnod hynny, mae amcan y bydd tua £41k o TAW ddim yn gallu cael ei ad-hawlio.

Mynegwyd fod hyn yn gadael amcan sefyllfa ar gyfer 2022/23 yn danwariant o bron i £60k a fydd yn cael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd am gyllideb ac ardoll y CBC ar gyfer 2023/24, gan nodi dylid rhoi ystyriaeth ddwys i holl ardollau 2023/24, gan gynnwys y Cyd-Bwyllgor Corfforedig, oherwydd bod rhagolygon ariannol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn edrych mor wael. Nodwyd y bydd trafodaeth am y gyllideb pan fydd cyllideb yn cael ei chreu. Nodwyd fod yr adroddiad yma am arian eleni ac ei bod yn anodd dod o hyd i arbedion eleni gan fod cyllideb y lleiaf posib ond cydnabuwyd yr angen i drafod cyllideb nesaf.
- Holwyd pam fod yr arian yn cael ei neilltuo i gronfa wrth gefn ac eglurwyd mai dim ond un cronfa wrth gefn sydd gan y Cyd-Bwyllgor ac felly bydd yr arian yn cael ei neilltuo ar gyfer ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

## 6. RHEOLAU SEFYDLOG A CHYFANSODDIAD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan G Evans (Swyddog Monitro).

**PENDERFYNIAD**

1. Cytunwyd i fabwysiadu
   **a)** Rheolau Sefydlog ar gyfer Is Bwyllgorau
   **b)** Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is Bwyllgorau canlynol;
      - Trafnidiaeth Strategol
      - Cynllunio Strategol
      - Llywodraethu ac Archwilio.

**2.** Dirprwyo hawl i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad a'r Swyddog Monitro i gwblhau cytundebau cyfethol gyda aelodau yr Is Bwyllgorau Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol a threfnu drwy'r Swyddog Priodol i alw cyfarfod cychwynnol o'r Is Bwyllgorau.

**3.** Cytuno ar yr egwyddorion penodi aelodau i'r Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac awdurdodi y Prif Weithredwr i gynnal proses ceisio datganiadau o ddiddordeb gan adrodd i gyfarfod Rhagfyr y CBC ar gyfer penodi.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad hwn yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd yn ôl ym mis Mehefin. Eglurwyd fod haner cyntaf yr adroddiad yn nodi mabwysiadu y Rheolau Sefydlog a Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Is-Bwyllgorau. Eglurwyd mai dim ond tri o'r is-bwyllgorau sydd yn cael ei amlygu yma gan fod y Swyddog Statudol yn parhau i ddisgwyl y rheoliadau ar gyfer y Pwyllgor Safonau. Nodwyd yn ogystal ei bod yn gyn-amserol i drafod y Bwrdd Uchelgais.

Mynegwyd fod ail agwedd y penderfyniad am cyfethol i'r Is-Bwyllgorau. Nodwyd yn unol ar ddeddf fod angen creu a cwblhau cytundebau cyfethol gyda aelodau'r Is-Bwyllgorau Trefniadaeth a Chynllunio Statudol er mwyn eu hymrwymo i fod yn aelodau cyn galw cyfarfod. Amlygwyd yr angen i sefydlu calendr is-bwyllgorau Trafnidiaeth Strategol a Chynllunio Strategol.

Nodwyd fod y rheoliadau yn nodi'r angen i'r Cyd-Bwyllgor fod yn creu Is-Fwrdd Llywodraethu ac Archwilio. Eglurwyd yr angen i symud ymlaen i'w sefydlu ac fod yr aelodaeth fel Awdurdodau Lleol yn 1 traean yn aelodau lleyg ac dwy ran o dair yn Cynghorwyd. Mynegwyd o ran argymhelliad y gweithdrefn fod yr aelodaeth yn dod o blith pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio y Cynghorau gan ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb o blith yr aelodau lleyg. Esboniwyd y bydd angen i'r enwebiadau fod yn gynrychiolaeth ar draws y rhanbarth gyda balans o sgiliau. Credai'r Swyddog Monitro mai dyma'r ffordd mwyaf pragmataidd o sicrhau'r aelodaeth.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod niferoedd ar gyfer Pwyllgor Archwilio yn 9 aelod, 6 wedi ei ethol a 3 aelod lleyg a beth oedd y drefn ar gyfer hyn Eglurwyd fy bydd angen gofyn am enwebiadau ar gyfer yr aelodau lleyg a bydd angen proses dewis drwy'r Cyd-Bwyllgor gan sicrhau traws doriad a balans.

## 7. SECONDIAD I RÔL PRIF WEITHREDWR Y CBC

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Gibbard (Prif weithredwr y CBC).

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i benodi Alwen Williams yn Brif Weithredwr rhan-amser y CBC, ar sail secondiad dros dro, hyd nes caiff y swydd ei hadolygu eto gan y CBC cyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.

Dirprwyo'r grym i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd gadarnhau trefniadau ffurfiol ar gyfer y secondiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr eitem hon wedi ei thrafod yn ôl ym mis Gorffennaf, pan gytunwyd i wneud cais i'r Bwrdd Uchelgais i ryddhau Alwen Williams i fod yn Brif Weithredwr rhan-amser tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Eglurwyd fod yr eitem wedi ei thrafod yn y Bwrdd Uchelgais wythnos diwethaf ac wedi cefnogi'r cais i'w secondio ar sail rhan amser gan ryddhau ei hamser am ddau ddiwrnod yr wythnos.

Eglurwyd fod yr adroddiad hwn yn cadarnhau penodiad Alwen Williams gan egluro y bydd papur am y swydd i'r dyfodol yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor yn fuan.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd o ran geiriad y penderfyniad fod angen ei addasu i nodi fod y swydd yn cael ei hadolygu cyn diwedd y flwyddyn ariannol gan roedd y geriad gwreiddiol yn awgrymu na fyddai trafodaeth tan ddiwedd Mawrth 2023.
- Holwyd pam fod angen dirprwyo'r hawl i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd i gadarnhau'r trefniadau ffurfiol ar gyfer y secondiad, oni ddylai'r penderfyniad ar y secondiad ddod yn ôl at y Cyd-Bwyllgor. Eglurwyd mai'r elfen Adnoddau Dynol yn unig sydd yn cael ei wneud i sicrhau cyflogaeth, gan mai Cyngor Gwynedd fel corff arweiniol yw'r cyflogwr cyfreithiol. Pwysleisiwyd mai dim ond awdurdodi elfen weinyddol o gyflogaeth mae'r Prif Weithredwr i gadarnhau fod Alwen Williams yn cael ei phenodi, a nid yw'n ymrwymo'r Cyd-Bwyllgor heibio mis Mawrth 2023.
- Mynegwyd fod penderfyniad hwn yn trio dod o hyd i ddatrysiad i broblem ac ei fod yn ateb pragmatiadd i allu symud ymlaen a dechrau ar y gwaith.

Dechreuodd y cyfarfod am 12:00pm a daeth i ben am 12:35pm.

CYFARFOD: **Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (y CBC)**

DYDDIAD: **13 Ionawr 2023**

PWNC: **Pensiynau: awdurdod gweinyddu’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol (CPLlL) ar gyfer CBC y Gogledd**

SWYDDOG CYSWLLT: **Alwen Williams, Prif Weithredwr y CBC**

---

**Dim penderfyniad, er gwybodaeth yn unig**

---

## 1. Cyflwyniad / Cefndir

Ar 14 Rhagfyr 2022, hysbysodd Llywodraeth Cymru swyddogion CBC eu bod yn optimistaidd ynghylch yr amserlen arfaethedig ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth y DU, sy’n golygu y bydd materion ynghylch treth gorfforaeth, treth incwm a phwerau benthyca’r CBC wedi’u datrys erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon drwy weithredu ‘Gorchymyn Adran 150’.

## 2. Awdurdod gweinyddol CPLlL ar gyfer CBC Gogledd Cymru

Roedd yr un neges yn gofyn am ymateb brys gan bob rhanbarth yn hysbysu Llywodraeth Cymru pa awdurdod gweinyddol Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yr ydym am ddewis ar gyfer ein CBC.

Roedd angen ymateb erbyn dydd Iau 22 Rhagfyr – terfyn amser byr i alluogi Llywodraeth y DU i fwrw ymlaen yn gyflym gyda datblygiad y ‘Gorchymyn Adran 150’.

Yn absenoldeb arwydd i'r Llywodraeth, byddai'r awdurdod gweinyddol yn cael ei benderfynu gan y broses statudol, heb unrhyw fodd ymarferol o adolygu'r sefyllfa wedi hynny.

## 3. Opsiynau a Ystyriwyd

Yr opsiynau i ni (awdurdodau gweinyddol CPLlL yng ngogledd Cymru) oedd Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) a Chyngor Gwynedd (Cronfa Bensiwn Gwynedd).

O ran y buddion pensiwn ar gyfer darpar weithwyr y CBC, nid yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth pa awdurdod gweinyddol a ddewisir - mae'r cynlluniau yn union yr un fath.

## 4. Ffactorau Perthnasol

Mae gweithwyr presennol Uchelgais Gogledd Cymru o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio rhanbarthol yn aelodau o Gronfa Bensiwn Gwynedd. Pe bai/pan fydd Uchelgais Gogledd Cymru a'r CBC yn uno i gyflawni ar hybu lles economaidd, yna byddai trosglwyddo aelodau pensiwn presennol Gwynedd i Gronfa Bensiwn Clwyd (Sir y Fflint) yn creu baich gweinyddol diangen.

O ystyried bod Uchelgais Gogledd Cymru a thîm y Swyddfa Rheoli Portffolio rhanbarthol yn arwain ar fentrau llesiant economaidd rhanbarthol, megis cyflawni Bargen Twf Gogledd Cymru, rhagdybir y gallai trefniadau yn y dyfodol weld gweithwyr yn trosglwyddo i'r CBC, felly byddai cynnal yr un trefniadau pensiwn yn rhesymegol. Nid yw'n bosibl, ar hyn o bryd, i ragweld o ble y bydd swyddogion Cynllunio a Thrafnidiaeth yn cael eu recriwtio.

## 5. Ymgynghoriad a Phenderfyniad Brys

Gofynnodd swyddogion y CBC am farn Cadeirydd, Is-Gadeirydd a Phrif Weithredwr y CBC, a cytunwyd yn unfrydol mai Cyngor Gwynedd ddylai fod yn awdurdod gweinyddol CPLlL ar gyfer Cyd-Bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru.

Ymgynghorodd swyddogion hefyd â Phennaeth Cronfa Bensiwn Clwyd a Phrif Swyddog Cyllid (Adran 151) Cyngor Sir y Fflint. Cadarnhaodd y ddau, ar ran Cronfa Clwyd / Cyngor Sir y Fflint, ei bod yn gwneud synnwyr i'r CBC ddefnyddio Cronfa Bensiwn Gwynedd.

## 6. Ymateb a anfonwyd at Lywodraeth Cymru

Yn ddelfrydol, byddai hyn wedi bod yn destun penderfyniad Cyd-Bwyllgor, ond roedd Llywodraeth Cymru angen ymateb brys, ac yn amlwg nid oeddem am roi unrhyw esgus i Lywodraeth y DU ohirio'r 'Gorchymyn Adran 150' eto, gan fod cost real TAW ynghlwm ag oedi.

O ganlyniad, ymatebodd swyddogion y CBC i Lywodraeth Cymru ar 21 Rhagfyr yn cadarnhau yn swyddogol bod ein rhanbarth wedi dewis defnyddio Cronfa Bensiwn Gwynedd, h.y. Cyngor Gwynedd fydd awdurdod gweinyddol CPLlL y CBC.

Cyflwynir yr adroddiad hwn er gwybodaeth i gyfarfod y CJC ar 13 Ionawr, gan nodi y penderfynwyd a gweithredwyd ar hyn o fewn terfyn amser Llywodraeth Cymru.

## ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd nodi cynnwys yr adroddiad hwn, er gwybodaeth.**

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro**

Gallaf gadarnhau fod yr amgylchiadau a amlinellir yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r ffenest gul a gafwyd er mwyn rhoi arwydd o'r awdurdod gweinyddu a ffafrir i Lywodraeth Cymru.

Gallwn ddisgwyl bydd y dymuniad yma'n cael ei adlewyrchu yn y "Gorchymyn Adran 150" (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) sydd i ddilyn.

**Swyddog Cyllid Statudol**

Rwyf wedi gweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad hwn ac rwy'n cadarnhau'r cynnwys.

# ADRODDIAD I GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

# 13/01/2023

**Teitl:** Cyllideb 2023/24 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac Ardoll ar Awdurdodau Cyfansoddol

**Awduron:** Dewi A Morgan, Prif Swyddog Cyllid y CBC

Dafydd L Edwards, Swyddog Arweiniol y Prosiect CBC

Sian Pugh, Cyfrifydd Grŵp y CBC

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae’n ofyniad statudol i Gyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd gymeradwyo ei gyllideb mewn cyfarfod o’r CBC erbyn 31 Ionawr yn flynyddol.

1.2 Mae’r gyllideb sydd yn yr atodiadau wedi ei rhannu i adlewyrchu strwythur y CBC, sef Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth a swyddogaethau corfforaethol, ac wedi ei dadansoddi fesul pennawd gwariant. Mae hyn yn caniatáu i gyfraniadau’r awdurdodau cyfansoddol gael eu codi drwy ardoll ar wahân ar gyfer y swyddogaethau ‘Cynllunio’ ac ‘Eraill’.

1.3 Cyflwynir dau opsiwn ar gyfer cyllideb 2023/24:-

- Opsiwn A – sefyllfa ddelfrydol yn adlewyrchu amcangyfrif gweithwyr proffesiynol trafnidiaeth a chynllunio o’u gofyniad i gyflawni’r ddau gynllun strategol (Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) a Cynllun Datblygu Strategol (CDS)).
- Opsiwn B – cyllideb isafswm realistig, gan gynnwys effaith blwyddyn lawn o amcangyfrifon y flwyddyn gyfredol, wedi’i leihau gyda amcangyfrif o warged 2022/23 (defnydd un-tro o gronfeydd wrth gefn).

1.4 Mae'r ddau opsiwn i’r gyllideb yn galluogi'r CBC i ymateb i'r cyfrifoldebau statudol, gydag Opsiwn A yn cynrychioli'r gyllideb ddelfrydol sydd ei hangen i ddarparu'r Cynllun

Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Strategol. Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi amserlenni cyflenwi ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn fuan, ond y disgwyl yw y bydd y dyddiad cau fis Mawrth 2024.

1.5 Nid yw amserlenni ar gyfer darparu'r Cynllun Datblygu Strategol yn hysbys eto, ond bydd y darn hwn o waith angen ymgynghori a chyd-ddatblygu agos gydag awdurdodau lleol dros y blynyddoedd i ddod. Bydd gosod cyllideb realistig ar gyfer cyflawni'r strategaethau allweddol hyn yn cefnogi ac yn hwyluso'r rhanbarth i arwain a phenderfynu ar y blaenoriaethau strategol. Mae gosod cyllideb ddelfrydol neu isafswm realistig hefyd yn osgoi ansicrwydd cost uwch posibl sy'n gysylltiedig ag oedi'r gwaith sydd ei angen ymhellach.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

**2.1 Penderfynu ar Opsiwn A neu B ar gyfer Cyllideb 2023/24 y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd fel y'i cyflwynir yn yr atodiadau. Cymeradwyo'r gyllideb fel nodir isod:-**

- **Cynllunio Strategol (6 Arweinydd a Cadeirydd Parc – mwyafrif syml, cworwm = 5)**
- **Swyddogaethau Eraill y CBC yn cynnwys Trafnidiaeth (6 Arweinydd – mwyafrif syml, cworwm = 5).**

| | **Cynllunio Strategol** | **Trafnidiaeth** | **Cyd-Bwyllgor Corfforedig** | **Cyfanswm Cyllideb** |
|---|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** | **£** |
| Opsiwn A | 503,750 | 280,570 | 238,410 | 1,022,730 |
| Opsiwn B | 371,250 | 250,570 | 143,000 | 764,820 |

**2.2 Cymeradwyo'r ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol, fel nodir isod:**

- **Cynllunio Strategol (Unfrydedd, cworwm = 7)**
- **Swyddogaethau eraill (Unfrydedd, cworwm = 6)**

| **Opsiwn A** | **Cynllunio Strategol** | **Swyddogaethau eraill** | **Cyfanswm Ardoll** |
|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (81,860) | (87,550) | (169,410) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (68,910) | (71,000) | (139,910) |
| Cyngor Sir y Fflint | (112,940) | (116,350) | (229,290) |
| Cyngor Gwynedd | (75,170) | (92,700) | (167,870) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (50,020) | (51,530) | (101,550) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (96,920) | (99,850) | (196,770) |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | (17,930) | | (17,930) |
| **Cyfanswm Ardoll** | **(503,750)** | **(518,980)** | **(1,022,730)** |

| **Opsiwn B** | **Cynllunio Strategol** | **Swyddogaethau eraill** | **Cyfanswm Ardoll** |
|---|---|---|---|
| | **£** | **£** | **£** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (60,330) | (66,400) | (126,730) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (50,790) | (53,840) | (104,630) |
| Cyngor Sir y Fflint | (83,220) | (88,240) | (171,460) |
| Cyngor Gwynedd | (55,390) | (70,290) | (125,680) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (36,870) | (39,080) | (75,950) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (71,430) | (75,720) | (147,150) |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | (13,220) | | (13,220) |
| **Cyfanswm Ardoll** | **(371,250)** | **(393,570)** | **(764,820)** |

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1 Mae Rheoliadau 16 ac 17 o'r Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021 yn manylu ar y broses i gytuno ac ariannu'r costau.

3.2 Mae'r opsiynau yma wedi eu llunio ar gyfer wahanol lefelau o weithrediad gan y CBC, tuag at cyflawni ei swyddogaethau statudol ym meysydd Cynllunio a Thrafnidiaeth a galluogi'r CBC i weinyddu'n briodol.

3.3 Am 2023/24, argymhellir ariannu'r gyllideb sy'n Atodiad A neu B drwy ardoll wedi'i ddosrannu rhwng yr awdurdodau cyfansoddol ar sail y boblogaeth perthnasol i'r maes gwaith.

## 4. CEFNDIR

4.1 Mae'r gyllideb wedi ei selio ar y 'swyddogaethau cychwynnol' y CBC, sef paratoi, monitro, adolygu a diwygio y Cynllun Datblygu Strategol a datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.

4.2 Er y gallai Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) fod o fewn y grym llesiant economaidd o'r CBC, bydd cyllideb ar wahân yn cael ei sefydlu ar ei gyfer ar hyn o bryd gan fod nifer o faterion rheoleiddio eto i'w datrys ac eglurhad pellach ei angen ynglŷn â hawliau'r CBC i fenthyca, buddsoddi a gweithredu'n fasnachol, treth a statws TAW.

4.3 Pryd bydd dyletswyddau cynllunio a thrafnidiaeth yn weithredol, bydd adroddiadau monitro cyllidebau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r CBC, a chaiff unrhyw faterion eu hamlygu a chamau priodol eu cymryd.

## 5. PENAWDAU'R GYLLIDEB

5.1 Gweithwyr

Hyd yma, ni fu unrhyw benderfyniad ynglŷn â chyflogi/secondio gweithwyr na chomisiynu gwaith yn y maes Trafnidiaeth na Chynllunio Strategol. I bwrpas llunio cyllideb 2023/24, mae'r ddwy opsiwn yn rhagdybio bydd angen adnoddau dynol cyfwerth â dau o weithwyr yn y maes Trafnidiaeth a tri gweithiwr yn y maes Cynllunio Strategol. Yn ogystal, mae'n cynnwys amser y Prif Weithredwr am ddau ddiwrnod yr wythnos ynghyd â chefnogaeth y Cynorthwyydd Gweithredol ac Arweinyddion Prosiect. Maent wedi eu gosod yn seiliedig ar gwir gynnydd chwyddiant 2022/23 ac amcangyfrif o 6% ar gyfer 2023/24.

5.2 Mae cost lwfansau aelodau lleyg Is Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu y Cyd-Bwyllgor yn seiliedig ar daliadau cyfatebol i aelodau lleyg mewn awdurdodau cyfansoddol.

Teithio

5.3 Mae'r gyllideb teithio yn seiliedig ar amcangyfrif o lwfansau teithio hanfodol a chynhaliaeth staff.

Cyflenwadau a gwasanaethau

5.4 Mae'r pennawd yma yn cynnwys cyllidebau ar gyfer offer a chyfarpar, cyflenwadau amrywiol, ymgysylltu a chyfarfodydd, ffioedd archwilio, ymgynghorwyr allanol ac yswiriant.

5.5 Mae'r gyllideb yswiriant yn amcan cychwynnol yr ydym wedi ei dderbyn gan y cwmni yswiriant yn seiliedig ar lefel risg y CBC yn ei flynyddoedd cychwynnol.

Gwasanaethau Cefnogol

5.6 Mae angen gwasanaethau cefnogol i hwyluso gwaith y Cyd-Bwyllgor, ac mae'r gyllideb ar gyfer 2023/24 yn cynnwys cefnogaeth gwasanaethau Cyllid, Cyfreithiol (gan gynnwys y Swyddog Monitro a mewnbwn cyfreithiol i Cynllunio a Thrafnidiaeth), Cefnogaeth Gorfforaethol (Pwyllgorau, Cyfieithu ac Adnoddau Dynol) a Thechnoleg Gwybodaeth (costau unwaith ac am byth ynghyd â chefnogaeth a thrwyddedau).

5.7 Bydd ystod y gwasanaethau a'r amcangyfrif costau yn cael eu trafod eto wrth i'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth gael eu ffurfio.

**6. CYFRANIADAU PARTNERIAID**

6.1 Mae cyfraniadau'r partneriaid wedi eu rhannu ar sail amcanion poblogaeth 2023 sydd wedi'u cyhoeddi yn swyddogol gan StatsCymru. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, bydd cyllideb gyffredinol y CBC a'r gyllideb Trafnidiaeth yn cael eu hariannu gan chwe awdurdod y Gogledd, tra bydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn cyfrannu tuag at y gyllideb Cynllunio Strategol (lle bydd ganddynt bleidlais).

**7. ASESIAD ARDRAWIAD**

7.1 Mae Cyd Bwyllgor Corfforedig yn ddarostyngedig i ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7.2 Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010 yma, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid i'r Cyd Bwyllgor Corfforedig dalu sylw dyledus i'r angen i (1) ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. Gan fod gosod cyllideb yn disgyn o fewn penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, mae'r dyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi ei ddylunio i leihau anghydraddoldebau sydd yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Gan fod y Cyd-Bwyllgor Corfforedig dal yn ei flynyddoedd cynnar, ni ystyrir fod unrhyw ardrawiadau penodol yn deillio o'r penderfyniadau sydd gerbron.

7.3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Gan ddal sylw at y cyd destun, mae'r argymhellion yn gydnaws â'r dyletswyddau yma.

**8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

8.1 Mae Rheoliadau 16 ac 17 o’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021 yn manylu ar y broses i gytuno ac ariannu’r costau. Mae’r rheoliadau yn gosod gofynion penodol ynglŷn â cyfrifo ac chymeradwyo gofynion cyllideb (Rheoliad 16) ac yna, fel ail gam, cytuno cyfraniadau ardoll ar yr awdurdodau cyfansoddol (Rheoliad 17). Yn ôl statud, rhaid i’r Cyd Bwyllgor Corfforedig fabwysiadu’r Gyllideb erbyn 31 Ionawr 2023. **Petai y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn methu â chytuno y cyfraniadau, yna mae gan Weinidogion Cymru rym statudol i gyfarwyddo ar ddosraniad y cyfraniadau.**

8.2 Fe nodir yn y penderfyniadau a geisir fod gofynion penodol ynglŷn a cworwm a pleidleisio yn perthyn i’r penderfyniadau yma. Felly, mae angen sicrhau fod y pleidleisio yn cael ei drefnu mewn modd sydd yn adlewyrchu ar yr un llaw hawliau pleidleisio penodol sydd yn ynghlwm â gosod y gyllideb ac ar y llaw arall yr angen am unfrydedd ar y penderfyniadau ar yr ardoll eto gan wahanu y ddwy elfen.

---

**ATODIADAU**

Atodiad A - Cyllideb Refeniw 2023/24 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Opsiwn A)

Atodiad B – Cyllideb Refeniw 2023/24 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Opsiwn B)

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro:**

Mae’r argymhelliad yn cydnabod fod y Cyd Bwyllgor Corfforedig (“CBC”) yn symud o gyfnod sefydlu i gyfnod gweithredol lle fydd angen ddechrau ar weithredu a chyflawni ei swyddogaethau. Fe nodir yn yr adroddiad fod Llywodraeth Cymru yn symud i’r cyfeiriad yma. Mae’n bwysig felly, fod yr adnoddau angenrheidiol mewn lle i gyflawni y gofynion fydd yn cael eu gosod ar y CBC.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

**Cyllideb Refeniw 2023/24 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Opsiwn A).** **Atodiad A**

| | Cynllunio Strategol | Trafnidiaeth | Cyd-Bwyllgor Corfforedig | Cyfanswm Cyllideb |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| **Gweithwyr** | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 205,290 | 140,980 | 133,900 | 480,170 |
| Lwfans aelodau lleyg | 0 | 0 | 5,090 | 5,090 |
| **Cyfanswm Gweithwyr** | **205,290** | **140,980** | **138,990** | **485,260** |
| **Teithio** | | | | |
| Teithio a chynhaliaeth | 3,000 | 2,000 | 1,000 | 6,000 |
| **Cyfanswm Teithio** | **3,000** | **2,000** | **1,000** | **6,000** |
| **Cyflenwadau a gwasanaethau** | | | | |
| Offer a chyfarpar | 4,500 | 3,000 | 0 | 7,500 |
| Cyflenwadau amrywiol | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 3,000 |
| Ymgysylltu a chyfarfodydd | 770 | 770 | 3,830 | 5,370 |
| Ffioedd Archwilio Cymru | 0 | 0 | 21,100 | 21,100 |
| Ymgynghorwyr allanol | 265,000 | 110,000 | 10,000 | 385,000 |
| Yswiriant | 7,500 | 7,500 | 0 | 15,000 |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau** | **278,770** | **122,270** | **35,930** | **436,970** |
| **Gwasanaethau Cefnogol** | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 0 | 0 | 26,610 | 26,610 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 7,500 | 7,500 | 15,000 | 30,000 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 6,880 | 6,280 | 17,760 | 30,920 |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,310 | 1,540 | 3,120 | 6,970 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol** | **16,690** | **15,320** | **62,490** | **94,500** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant** | **503,750** | **280,570** | **238,410** | **1,022,730** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant Net** | **503,750** | **280,570** | **238,410** | **1,022,730** |

| | Cynllunio Strategol | Swyddogaethau eraill | Cyfanswm Ardoll | Ardoll 2022/23 | Cynnydd % |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | | |
| **Cyfraniadau Partneriaid drwy ardoll** | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (81,860) | (87,550) | (169,410) | (60,490) | 180.1 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (68,910) | (71,000) | (139,910) | (49,560) | 182.3 |
| Cyngor Sir y Fflint | (112,940) | (116,350) | (229,290) | (81,150) | 182.6 |
| Cyngor Gwynedd | (75,170) | (92,700) | (167,870) | (62,000) | 170.8 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (50,020) | (51,530) | (101,550) | (36,040) | 181.8 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (96,920) | (99,850) | (196,770) | (69,880) | 181.6 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) | (17,930) | | (17,930) | (3,140) | 471.0 |
| **Cyfanswm Cyllideb Incwm** | **(503,750)** | **(518,980)** | **(1,022,730)** | **(362,260)** | |

| ***Poblogaeth perthnasol*** | ***Amcanion poblogaeth 2023*** | |
|---|---|---|
| *Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy* | *114,195* | *118,624* |
| *Cyngor Sir Ddinbych* | *96,198* | *96,198* |
| *Cyngor Sir y Fflint* | *157,626* | *157,626* |
| *Cyngor Gwynedd* | *104,917* | *125,539* |
| *Cyngor Sir Ynys Môn* | *69,842* | *69,842* |
| *Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam* | *135,279* | *135,279* |
| *Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)* | *25,051* | |
| ***Cyfanswm poblogaeth*** | ***703,108*** | ***703,108*** |

**Cyllideb Refeniw 2023/24 Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Opsiwn B).** **Atodiad B**

| Gwariant | Cynllunio Strategol (£) | Trafnidiaeth (£) | Cyd-Bwyllgor Corfforedig (£) | Cyfanswm Cyllideb (£) |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithwyr** | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 205,290 | 140,980 | 118,490 | 464,760 |
| Lwfans aelodau lleyg | 0 | 0 | 5,090 | 5,090 |
| **Cyfanswm Gweithwyr** | **205,290** | **140,980** | **123,580** | **469,850** |
| **Teithio** | | | | |
| Teithio a chynhaliaeth | 3,000 | 2,000 | 1,000 | 6,000 |
| **Cyfanswm Teithio** | **3,000** | **2,000** | **1,000** | **6,000** |
| **Cyflenwadau a gwasanaethau** | | | | |
| Offer a chyfarpar | 4,500 | 3,000 | 0 | 7,500 |
| Cyflenwadau amrywiol | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 3,000 |
| Ymgysylltu a chyfarfodydd | 770 | 770 | 3,830 | 5,370 |
| Ffioedd Archwilio Cymru | 0 | 0 | 21,100 | 21,100 |
| Ymgynghorwyr allanol | 132,500 | 80,000 | 10,000 | 222,500 |
| Yswiriant | 7,500 | 7,500 | 0 | 15,000 |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau** | **146,270** | **92,270** | **35,930** | **274,470** |
| **Gwasanaethau Cefnogol** | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 0 | 0 | 26,610 | 26,610 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 7,500 | 7,500 | 15,000 | 30,000 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 6,880 | 6,280 | 17,760 | 30,920 |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,310 | 1,540 | 3,120 | 6,970 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol** | **16,690** | **15,320** | **62,490** | **94,500** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant** | **371,250** | **250,570** | **223,000** | **844,820** |
| **Cyfraniad o gronfeydd** | | | (80,000) | **(80,000)** |
| **Cyfanswm Cyllideb Gwariant Net** | **371,250** | **250,570** | **143,000** | **764,820** |

| Incwm | Cynllunio Strategol (£) | Swyddogaethau eraill (£) | Cyfanswm Ardoll (£) | Ardoll 2022/23 | Cynnydd % |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfraniadau Partneriaid drwy ardoll** | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (60,330) | (66,400) | (126,730) | (60,490) | 109.5 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (50,790) | (53,840) | (104,630) | (49,560) | 111.1 |
| Cyngor Sir y Fflint | (83,220) | (88,240) | (171,460) | (81,150) | 111.3 |
| Cyngor Gwynedd | (55,390) | (70,290) | (125,680) | (62,000) | 102.7 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (36,870) | (39,080) | (75,950) | (36,040) | 110.7 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (71,430) | (75,720) | (147,150) | (69,880) | 110.6 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) | (13,220) | | (13,220) | (3,140) | 321.0 |
| **Cyfanswm Cyllideb Incwm** | **(371,250)** | **(393,570)** | **(764,820)** | **(362,260)** | |

| *Poblogaeth perthnasol* | *Amcanion poblogaeth 2023* | |
|---|---|---|
| *Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy* | *114,195* | *118,624* |
| *Cyngor Sir Ddinbych* | *96,198* | *96,198* |
| *Cyngor Sir y Fflint* | *157,626* | *157,626* |
| *Cyngor Gwynedd* | *104,917* | *125,539* |
| *Cyngor Sir Ynys Môn* | *69,842* | *69,842* |
| *Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam* | *135,279* | *135,279* |
| *Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)* | *25,051* | |
| ***Cyfanswm poblogaeth*** | ***703,108*** | ***703,108*** |

**ADRODDIAD I GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

**13/01/2023**

**Teitl:** Datganiad Cyfrifon Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2021/22.

**Awduron:** Dewi A Morgan, Prif Swyddog Cyllid y CBC
Sian Pugh, Cyfrifydd Grŵp y CBC

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

**2.1 Gofynnir i'r aelodau gymeradwyo Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd ar gyfer 2021/22.**

**3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Yn wreiddiol, gan nad oedd unrhyw drafodion ar gyfer CBC y Gogledd yn y flwyddyn ariannol 2021/22, nid oedd yn ymddangos byddai angen unrhyw gyfrifon nac archwiliad. Daeth yn amlwg yn ddiweddar y byddai angen datganiad blynyddol ffurfiol. Felly, fel 'mater o ffurfioldeb', mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau nad oedd unrhyw drafodion yn y flwyddyn ariannol 2021/22 ar gyfer CBC y Gogledd, ac mae'r datganiad blynyddol ynghlwm er cymeradwyaeth y Cyd-Bwyllgor, er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol perthnasol. Ni ddisgwylir ffi archwilio cysylltiedig.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Cyfansoddwyd CBC y Gogledd yn ffurfiol ar 14 Ionawr 2022, ac ar 28 Ionawr 2022 cadarnhaodd CBC y Gogledd gyllideb o ddim gwariant ar gyfer 2021/22.

4.2 Yn 2021/22, derbyniodd Cyngor Gwynedd grant o £250k gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Rhanbarth Gogledd Cymru gyda sefydlu a gweithredu CBC y Gogledd.

4.3 Mae'r datganiad ynghlwm yn cadarnhau nad oedd gan CBC y Gogledd unrhyw drafodion yn ystod 2021/22.

**5. Goblygiadau Cyfreithiol**

5.1 Noda Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod Cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn mynnu bod yr holl Gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Os yw'r trosiant yn llai na £2.5m, pennir bod y Cyd-bwyllgor yn "gyd-bwyllgor bach" a rhaid paratoi ffurflen flynyddol yn unol ag arferion priodol fel yr amodir drwy ddeddfwriaeth.

**6. Atodiad**

Atodiad 1 – Datganiad Cyfrifon y CBC ar gyfer 2021/22.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

# Datganiad Cyfrifon Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2021/22.

## Rhagarweiniad

Creodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau") y fframwaith i gael trefn gyson ar gyfer cydweithio rhanbarthol rhwng llywodraeth leol, sef Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau). Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn darparu ar gyfer sefydlu CBCau drwy Reoliadau (Rheoliadau Sefydlu CBCau).

Sefydlwyd CBC y Gogledd yn ffurfiol ar 14 Ionawr 2022. Mae'r CBC yn cynnwys chwech Cyngor Cyfansoddol: Cyngor Bwrdeistrefol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn aelod o'r CBC mewn perthynas ag ymarfer swyddogaethau cynllunio strategol.

Dyma ddyletswyddau CBC y Gogledd:

- Cynllunio datblygu strategol (Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004)
- Cynllunio trafnidiaeth ranbarthol (adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 o'r Ddeddf Trafnidiaeth 2000)

Gall dyletswyddau CBC y Gogledd hefyd gynnwys:

- Lles economaidd (adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021)

Roedd y CBC yn gweithredu ar ffurf gyfyngedig ac nid oedd unrhyw wariant yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

## Datganiad Cyfrifeg am y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

Nid oedd unrhyw wariant gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 ac nid oedd unrhyw asedau na ymrwymiadau ar 31 Mawrth 2022. Oherwydd hyn, ni chynhyrchwyd unrhyw ddychweliad na datganiad ariannol.

## Cyfrifoldebau y Pennaeth Cyllid

Mae'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn unol â'r ymarfer priodol fel y nodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol y Deyrnas Unedig (y "Côd").*

## Ardystio cyfrifon

Ardystiaf nad oedd trafodion mewn perthynas â Chyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn ystod y flwyddyn ariannol 2021/22.



______________________________

**Dewi Aeron Morgan CPFA** **Rhagfyr 2022**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

## Cyfrifoldeb Y Cyd-Bwyllgor

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor:

- I wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yn yr awdurdod hwn, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw.
- I reoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau a gwarchod ei asedau.
- I gymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

## Cymeradwyaeth y Cyd-Bwyllgor

Cymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

______________________________

**Cynghorydd Dyfrig Siencyn** **Ionawr 2023**
**Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd**

**Arweinydd Cyngor Gwynedd**

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y diwygiwyd), mae Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gyfrifol am sicrhau system gadarn o reoli mewnol a rheoli ariannol. Yn ystod 2021/22 roedd y trefniadau rheoli mewnol a llywodraethu yn cael eu datblygu, i baratoi ar gyfer gweithredu'n llawn yn 2022/23.

## Barn archwilio

Rwy'n fodlon nad oedd gan Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd unrhyw drafodion ariannol yn ystod y flwyddyn a bod y Datganiad Cyfrifon yn cyflwyno'n gywir ei drafodion ariannol a'i falansau o £nil ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

## Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Ionawr 2023

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd** |
| DYDDIAD: | **13 Ionawr 2023** |
| PWNC: | **Dyddiadau cyfarfodydd 2023/24** |

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

**Cytuno ar y dyddiadau isod ar gyfer Cyfarfodydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2023/24.**

---

Er mwyn sicrhau trefniadau cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, gofynnir i'r Aelodau dderbyn y dyddiadau isod fel dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd:

- 26 Mai (pm)
- 14 Gorffennaf (pm)
- 29 Medi (pm)
- 24 Tachwedd (pm)
- 26 Ionawr 2024 (pm)
- 22 Mawrth 2024 (pm)

Noder mai dyma'r dyddiadau yr ydym yn eu rhaglennu ar hyn o bryd, ond gall sefyllfaoedd godi ble bydd angen trefnu cyfarfodydd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu anghenion y Cyd-bwyllgor.

**Addasiad i'r Calendr Presennol**
Ynghyd a'r uchod, credwyd y bydd angen gwneud addasiad i'r Calendr presennol gafodd ei fabwysiadu yng nghyfarfod 22 Gorffennaf 2022 o'r Cyd-bwyllgor. Mae wedi dod i'n sylw bod y cyfarfod sydd wedi ei raglennu ar gyfer bore 31 Mawrth, 2023 yn gwrthdaro â chyfarfod CLlLC.

Yn sgil hyn argymhellir newid y dyddiad i 24 Mawrth 2023 (prynhawn). Noder bod cyfarfod y Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi ei raglennu yn y bore. Bydd angen cydsyniad y Cyd-bwyllgor i wneud yr addasiad hwn.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Swyddog Cyllid Statudol**
O safbwynt materion ariannol, mae'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer y cyfarfodydd perthnasol yn caniatáu i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig gydymffurfio ag amserlenni statudol lle bynnag bosib.